

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7fed Ionawr, 2014

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Dewi Jones (is gadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1236. Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb a derbyniodd Ymddiheuriadau oddi wrth Beryl Hughes Griffiths a Catrin Roberts.

1237. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar faterion ar yr Agenda.

1238 Nid oedd neb yn datgan buddiant ar fater ar yr Agenda.

1239 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Rhagfyr 3ydd 2013.

1240 Yn codi o Gofnodion Rhagfyr, cafwyd gwybod fod y gwaith ar Lwybr Tegid ar fin cychwyn. Awdurdodwyd y Cadeirydd i drafod telerau contractwyr i ddefnyddio maes parcio Nyrs y Fynwent, gan awgrymu creu adwy newydd ym mhen draw'r safle i alluogi mynediad i beiriannau i'r fynwent, a gwneud gwaith ar y llwybr o'r safle mewn i'r fynwent.

1241 Materion eiddo'r Cyngor:

- i. **Toiledau** – cytunwyd i ofyn i'r Adran Eiddo am ddiweddariad ar sefyllfa trosglwyddo'r Toiledau. *Gweithredu: Clerc*

Cytunwyd ar Femorandwm o Ddealltwriaeth i'w gynnig i Gwmni Pum Plwy Penllyn cyf

Cytunwyd ar gamau nesaf uwchraddio'r toiledau, sef gofyn i 3 gontractwr lleol am bris ar gyfer ffenestri pvc *Gweithredu: Clerc*

Cytunwyd i ofyn i Aled Richards wneud y gwaith plymio angenrheidiol ac i adnewyddu'r tapiâu. *Gweithredu: Cadeirydd*

Diolchwyd i Karl Jones am drefnu ar ddechrau'r flwyddyn fod gwaith dadflocio'n cael ei wneud ar y safle.

- ii. **Lloches Bws** – derbyniwyd adroddiad ar Loches bws Tŷ'n Ddôl gan y Cadeirydd. Cytunwyd fod y Cynghorwyr yn gwneud gwaith Cynnal a Chadw yno ar fore Sadwrn yn y Gwanwyn.

Cytunwyd i ofyn i Branwen Williams drefnu i aelodau'r Aelwyd i addurno'r lloches ar ôl i'r gwaith cynnal gael ei wneud. *Gweithredu: Heledd Jones*

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cytunodd Arwel Lloyd Jones i fonitro glendid a thaclusrwydd y lloches hon.
Gweithredu: Arwel Lloyd Jones

Trafodir Lloches bws Y Lôn yn y cyfarfod nesaf. *Gweithredu: Rhodri Jones*

1242 Materion Ariannol

- Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis (trydan, claddedigaeth, cyflog y Clerc).
- Cytunwyd i lunio Polisi ar gyfer y Fynwent. *Gweithredu: Clerc ac Is bwyllgor*
- Cymeradwywyd Swydd Ddisgrifiad Clerc y Fynwent. Diolchwyd i Bethan Edwards am weithredu fel Clerc dros dro ar hyd y flwyddyn ddiwethaf.
- Cadarnhawyd y Praesept ar £8,800, sef yr un swm â llynedd.

1243 Materion y Cynghorwyr

i. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd ar yr ymatebion i'r Holiadur Cartrefi. Cytunwyd i'r swyddogion gyfarfod gyda Chynghorwyr Lleol Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd ac Arfon Hughes. *Gweithredu: Clerc, Cadeirydd*

Trafodwyd taflen gyda lluniau i'w rhannu i breswylwyr posibl cyn diwrnod agored yn y fflatiau. Er mwyn denu pobol leol, trafodwyd y posibilrwydd o roi grant i'w helpu i symud mewn i'r fflatiau, lleihad yn y rhent neu gydnabyddiaeth am fod yn Warden yno.

ii Adroddodd Arwel Lloyd Jones iddo ymweld â'r tenantiaid a chyflwyno Arwel Jones, Warden Cartrefi Cymunedol Gwynedd iddynt. Mae'r Warden yn cynnal cymorthfeydd rheolaidd.

1244 Partneriaeth Penllyn

Adroddodd y Cadeirydd fod y brydles ar yr Henblas wedi ei harwyddo, fod y grantiau wedi eu cadarnhau yn dilyn yr arwyddo, fod tendrau'r gwaith adnewyddu wedi eu cyflwyno i sylw'r Syrffwr a bod aelodau wedi gweithio'n galed i glirio'r adeilad. Bydd Mari Williams yn trefnu Diwrnod a Noson agored i'r Cynghorwyr Cymuned a Thref, ac i unrhyw ddarparwr neu ddefnyddiwr posib - ar 23/1/14.

Awgrymwyd cysylltu gyda Bedwyr Gwilym (sy'n trefnu Gweithio o Gartref) a'r Undebau Amaethyddol. *Gweithredu: Clerc*

1245 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- Cadarnhawyd Cais Cynllunio NP5/71/444A sef cynllun trydan dŵr Nant Eglwysarn, Dolhendre

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

ii Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais cynllunio NP5/71/443 sef cynllun trydan dŵr Llwyn Gwern.

2 Gwynedd:

i. Nodwyd derbyn ymgynghoriad ar newidiadau i Gynllun Atodol Cyngor Gwynedd ar Ynni Gwynt ar y Tir (ddim yn berthnasol i ardal cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri)

ii. Nodwyd derbyn adroddiad Pwyllgor Safonau Gwynedd ac awdurdodwyd y Clerc i gwblhau'r Holiadur am y Cofrestr Buddiant. *Gweithredu: Clerc*

3 Un Llais Cymru:

i Derbyniwyd Rhaglen Hyfforddiant y Tymor (*anfonwyd ymlaen ar e-bost*). Cytunwyd gydag awgrym Cyngor Tref Y Bala i gynnal sesiwn hyfforddi ar "Cyllid" unwaith y bydd yr Henblas wedi agor.

ii Cytunodd Huw P Roberts a Huw Antur i fynychu'r pwyllgor ardal ar 15/1/14.

6 Materion Eraill:

i. Derbyniwyd sylwadau am drafferthion parcio tu allan y Neuadd ac o flaen Tŷ Aran. Cytunwyd i anfon awgrymiadau at Ysgrifennydd y Neuadd. *Gweithredu: Clerc*

ii. Derbyniwyd sylwadau ar drafferthion pibau dŵr yn torri'n aml wrth Tŷ'n Ddôl. Mae'r Clerc wedi holi Dŵr Cymru am eu cynlluniau ac yn disgwyl eu hymateb.

Amser gorffen: 10.15